

## WILLIAMS, EVAN (1706 -?), telynor

**Enw:** Evan Williams  
**Dyddiad geni:** 1706  
**Rhiant:** Jane Robert (née Griffith)  
**Rhiant:** Humphrey Robert  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** telynor  
**Maes gweithgaredd:** Cerddoriaeth; Perfformio  
**Awdur:** Robert David Griffith

Ganwyd yn Llanyby, Sir Gaernarfon. Ceir y cofnod hwn yn rhestr bedyddiadau eglwys Llanyby - ' September about 29 was baptized Evan, son of Humphrey Robert (Singer) and Jane Griffith his wife. ' Ni wyddys ddim am gyfnod ei ieuenctid. Yr oedd yn delynor rhagorol, ac fel llawer o gerddorion Cymru aeth i Lundain tua 1740. Cynorthwyodd **John Parry**, Rhiwabon, i gasglu a dwyn allan *Antient British Music*, 1742. Ymsefydlodd yn Llundain yn athro ar y delyn, a chafodd le i ganu'r delyn mewn eglwys, a gellir casglu oddi wrth gyfeiriad ato gan **William Morris** ei fod yn canu'r organ hefyd. Yn y *Llyfr Gweddï Gyffredin* a olygwyd gan **Richard Morris**, ceir 24 o donau cysegredig, y rhai cyntaf a gafodd y genedl yn argraffedig. Gwasanaeth gwerthfawr a gyflawnodd Evan Williams oedd trefnu 16 o'r tonau hyn yn y mesur cyffredin, (8.6.8.6.) fel y gellid canu salmau cân **Edmund Prys** arnynt a oedd yn 8.7.8.7. Cyfansoddodd hefyd wyth o donau ym mesur newydd **Prys** 8.7.8.7. Dyma'r tonau cyntaf o waith Cymro i gael eu hargraffu. Ceir hefyd am y tro cyntaf gyda'r tonau gyfarwyddyd pa fodd i ganu. Cyfeirir ato gan **Forysiaid Môn** yn eu llythyrau, ond nid oes hanes ei fywyd ar gael, na pha bryd y bu farw; ymdengys ei enw yn rhestr aelodau'r Cymmrodorion yn 1762, ond nid yw yn rhestr 1777-8.

### Awdur

**Robert David Griffith**, (1877 - 1958)

### Ffynonellau

J. Lloyd Williams, *Y tri thelynor arloeswyr cerddorol Cymru yn y ddeunawfed ganrif* (1945)

R. D. Griffith, *Hanes canu cynulleidfaol Cymru* (Caerdydd 1948)

*Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon*, 1948

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20804702](#)

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Griffith, R. D., (1953). WILLIAMS, EVAN (1706 -?), telynor. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 10 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-WILL-EVA-1706>

Clippwr

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Ysgrifeddiadau  
Llywodraeth Cymru  
Copied by  
Welsh Government